# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2018

Amser: 08.30 - 09.03

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd Arweinydd y Tŷ ei hymddiheuriadau oherwydd salwch.

## 2 Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y ddau gyfarfod blaenorol ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

*Busnes yr wythnos hon*

Bydd y Llywodraeth yn cadarnhau cyn gynted â phosibl pwy fydd yn cyflawni dyletswyddau Arweinydd y Tŷ yn y Cyfarfod Llawn.

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am wybodaeth am y gyfran o adroddiadau gan bwyllgorau y neilltuwyd amser i'w trafod yn y Cyfarfod Llawn, a chytunwyd y dylid trefnu o leiaf un ddadl gan wrthblaid bob wythnos o hyn ymlaen.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 28 Tachwedd 2018 -**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Gwerthu Cymru i'r Byd (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Cyfnod 3 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i geisio ail-drefnu rhywfaint o fusnes y Cynulliad o ddydd Mercher 5 Rhagfyr i ddydd Mawrth 27 Tachwedd fel y gallai'r Llywodraeth drefnu'r ddadl Cyfnod 3, a gofynnwyd i'r Llywodraeth esbonio pam na ellid dwyn y ddadl ynghylch yr M4 ymlaen o 4 Rhagfyr er mwyn creu lle ar gyfer y ddadl Cyfnod 3.

# 5 Pwyllgorau

## 5.1 Dyrannu lleoedd a chadeiryddion pwyllgorau rhwng grwpiau

Dywedodd Darren Millar na fyddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn derbyn y cynnig i gadeiryddiaeth y Pwyllgor Deisebau gael ei hailddyrannu i'r Ceidwadwyr Cymreig oni fydd materion eraill yn cael eu datrys yn gyntaf. Cadarnhaodd Rhun ap Iorwerth a Darren Millar nad oedd y cyfarfod rhwng y ddau arweinydd wedi arwain at unrhyw gytundeb newydd. Ar sail hynny, penderfynodd y Rheolwyr Busnes beidio â threfnu cynnig i ail-ddyrannu cadeiryddiaeth y Pwyllgor Deisebau, a bydd y dyraniad presennol o Gadeiryddion i grwpiau'r pleidiau yn aros fel y mae am y tro.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at drafod y lle gwag ar y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yng nghyfarfod yr wythnos nesaf.

# Unrhyw fater arall

***Aelodaeth Pwyllgorau***

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid ychwanegu cynnig i ethol Llyr Gruffydd fel aelod o Bwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i agenda'r Cyfarfod Llawn yfory.

*Cynnig y Pwyllgor Safonau Ymddygiad*

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y bydd cynnig a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i benodi Douglas Bain yn Gomisiynydd Safonau Dros Dro yn cael ei ychwanegu at agenda'r Cyfarfod Llawn heddiw.

*Biliau Aelodau*

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes y bydd y bleidlais ar gyfer Biliau Aelod yn cael ei chynnal ddydd Mercher nesaf ac mai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno Bil oedd y dydd Iau cyn hynny. Gofynnodd iddynt atgoffa eu haelodau o'r cyfle i gynnig Bil ar gyfer y bleidlais ac i gael gwared ar unrhyw gynigion a allai fod yn amherthnasol bellach.